Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Papur cwmpasu

Trosolwg

- Fy rôl
- Tueddiadau yn fy ngwaith achos cynllunio a rheoli adeiladu
- Themâu sy'n codi yn fy ngwaith achos
- Gwasanaethau cynllunio a lefel adnoddau
- Atodiad: enghreifftiau o waith achos cynllunio mae fy swyddfa yn delio â nhw

Fy rôl

Yn fy ngwaith fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwy'n ymchwilio i gwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff yn fy awdurdodaeth sydd, i bob pwrpas, yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hariannu neu eu trefnu'n breifat a, mewn rhai amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd sydd wedi'i ariannu'n breifat.

Tueddiadau yn fy ngwaith achos cynllunio a rheoli adeiladu

Mae'r cwynion am wasanaethau cynllunio a rheoli adeiladu sy'n cyrraedd fy swyddfa yn cynrychioli tua un rhan o ddeg o gyfanswm y cwynion mae fy swyddfa yn delio â nhw – 9% yn 2018/19.

Mewn llawer o'r achosion hyn, mae'r awdurdodau lleol wedi gwrthod delio â chwynion am y broses gynllunio ar y sail eu bod nhw'n ymwneud â "phenderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud yn briodol". Gall y rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio, ond mae gan bartïon eraill sy'n ymwneud â'r broses hawl i gwyno i'r awdurdod lleol perthnasol am y broses a ddilynodd wrth wneud unrhyw benderfyniad. Cafodd y mater ei godi gyda Swyddogion Monitro ledled Cymru ym mis Mawrth 2019 i bwysleisio'r pwynt nad oes modd i awdurdodau lleol ddatgan yn hyderus bod y penderfyniad yn "benderfyniad sydd wedi cael ei wneud yn briodol" heb yn gyntaf adolygu ei broses ac ymateb i unrhyw faterion a godwyd mewn cwyn.

Mae fy mhwerau yn gysylltiedig â'r broses gynllunio yn eithaf cyfyngedig. Pan fydd hawl i'r achwynydd apelio, yn gyffredinol does dim modd i mi ymchwilio i'r gŵyn. Felly, yn gyffredinol dydy materion sy'n cael eu cyfeirio ataf gan bobl sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ddim yn dod o fewn fy nghylch gwaith.[1] Hefyd, does dim modd i mi gwestiynu rhinweddau penderfyniad cynllunio oni bai fod tystiolaeth o gamweinyddu. Felly, mae fy ymchwiliadau'n canolbwyntio ar agweddau trefniadol o broses o wneud penderfyniadau awdurdod lleol. Hyd yn oed pan fyddaf yn dod o hyd i dystiolaeth o gamweinyddu sylweddol sydd wedi effeithio'n negyddol ar amwynder achwynydd, does gen i ddim pŵer i wrthdroi caniatâd cynllunio. Nod fy argymhellion yw sicrhau camau ar ran yr awdurdod lleol i unioni, hyd y bo modd, unrhyw anghyfiawnder sy'n deillio o fethiannau gweinyddol yr awdurdod. Dydw i ddim yn gallu ymchwilio i gwynion lle nad oes anghyfiawnder personol i'r achwynydd.

Mae'r cyfyngiadau hyn ar yr achosion y gallaf i ymchwilio iddynt yn golygu bod cyfran y cwynion am gynllunio a rheoli adeiladu sy'n destun ymchwiliad llawn y gymharol fach. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at adroddiad budd y cyhoedd yn ymwneud â phrosesau cynllunio a gyhoeddwyd gan fy swyddfa ym mis

[1] Er enghriafft, o'r achosion cynllunio a rheoli adeiladu a gaewyd yn 2018/19, pennwyd bod 49% y tu hwnt i awdurdodaeth.

Ionawr eleni. Byddaf yn cyfeirio at fy nghanfyddiadau yn nes ymlaen yn y papur hwn, ond mae crynodeb o'r adroddiad ar gael yn yr Atodiad.

Themâu sy'n codi yn fy ngwaith achos

Ers mis Ebrill 2016, roedd tua hanner yr holl achosion yn ymwneud â chynllunio a rheoli datblygu a gyrhaeddodd fy swyddfa yn ymwneud ag ymdrin â cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, roedd y testun hwn gyfystyr â 60% o'm gwaith achos cynllunio a rheoli adeiladu yn 2018/19, cynnydd sylweddol o 45% a 46% yn y blynyddoedd blaenorol.

Roedd y themâu pwysig eraill a godwyd gan yr achwynwyr yn 2018/19 yn cynnwys datblygiad heb awdurdod (tua 13% ar gyfartaledd) a rheoli adeiladu (tua 6% ar gyfartaledd). Nid wyf wedi gweld newidiadau sylweddol yng nghyfran yr achosion hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Gallaf hefyd dynnu sylw at nifer o themâu mwy penodol sydd wedi'u nodi gan fy staff gwaith achos:

- Gwybodaeth ac ymgysylltiad

  Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bryder ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd gan awdurdodau cynllunio lleol, ac ynghylch ansawdd yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid ynghylch cynigion cynllunio a'u goblygiadau posibl. Mae fy staff wedi nodi pryderon ynghylch dulliau hysbysu annigonol neu anghyson ynghylch ceisiadau cynllunio i'r eiddo a effeithir, ac ynghylch eglurder a thryloywder trefniadau penodol ym mhob awdurdod cynllunio.

  Mae'r gofynion yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio arferol yn caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn i'r awdurdod cynllunio o ran sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i geisiadau o'r fath, sy'n golygu ei bod hi weithiau'n anodd canfod a fethwyd â dilyn y broses gywir mewn achosion o'r fath.

  Gweler **201706403** isod i weld enghreifftiau o'r thema hon yn fy ngwaith achos. Yn yr achos hwnnw, ac mewn un cynharach o lawer (200601750), roedd methiannau ar ran y Cyngor i roi cyhoeddusrwydd i geisiadau wedi arwain, o leiaf yn rhannol, at argymhelliad gennyf fod y Cyngor yn talu unrhyw ostyngiad i werth eiddo'r achwynydd yn unol ag asesiad Prisiwr

Dosbarth annibynnol, swm mawr iawn o bosibl.

- Gorfodi

  Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r canfyddiad gan rai aelodau o'r cyhoedd nad yw camau gorfodi mewn achosion o dorri amodau cynllunio mor effeithiol ag y dylai fod, gyda rhai'n mynegi pryder bod datblygwyr yn 'chwarae' y system gynllunio. Yn sicr, gwelaf yn fy ngwaith achos cwynion yn ymwneud â gorfodi amodau ceisiadau cynllunio nad yw'r ymgeisydd wedi cydymffurfio'n llwyr â nhw maes o law, ac am fethu â gweithredu ar ddatblygiadau heb awdurdod. Mae fy rôl yn gyfyngedig mewn cwynion sy'n ymwneud â diffyg camau gorfodi, ond mae fy ngwaith achos yn awgrymu bod penderfyniadau cynllunio dilys ynglŷn â'r hyn sy'n fuddiol ac yn briodol i'w orfodi, yn gallu rhoi pwysau ar staff cynllunio a'r adnoddau staff cyfyngedig ar gyfer gorfodi.

  Gweler **201800027**, **201801745** a **201705212** i weld enghreifftiau o'r thema hon yn fy ngwaith achos diweddar.

- Oedi

  Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi'r cyfnod o amser mae'n ei gymryd i gymeradwyo ceisiadau ac oedi annerbyniol. Ychydig iawn o achosion sy'n cyrraedd fy swyddfa ynghylch oedi o ran ymdrin â cheisiadau cynllunio. Mae'r broses hon yn cael ei rheoli gan amserlenni pendant ac os methir â chadw atynt mae gan yr ymgeiswyr hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio. Fodd bynnag, gofynnir yn fwy aml i'm staff ystyried oedi honedig cyn cymryd camau gorfodi mewn achosion o dorri rheolaeth gynllunio (e.e. datblygiadau heb awdurdod).

  Gweler **201903049**, **201801745** a **201800027** isod i weld enghreifftiau o'r thema hon yn fy ngwaith achos diweddar.

  Ar ben hynny, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at fy adroddiad budd y cyhoedd diweddar (**201900014**) ar ymchwiliad yn erbyn Cyngor Sir y Fflint. Roedd fy ymchwiliad wedi canfod nad oedd y Cyngor wedi cymryd camau priodol ac amserol i ymdrin â chwynion am gyfleuster golchi ceir a oedd yn achosi Niwsans Sŵn Statudol a chwistrellydd dŵr/cemegau a oedd yn torri rheolaeth gynllunio. Ar ben hynny, deuthum i'r casgliad nad oedd y Cyngor

wedi rhoi ystyriaeth briodol i hawliau'r unigolyn a effeithiwyd dan Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol i gael mwynhau ei gartref mewn heddwch pan oedd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.[2]

- Cod Ymddygiad yr aelodau etholedig yng Nghymru

  Mae fy rôl wrth ymchwilio i doriadau honedig o'r Cod Ymddygiad gan yr aelodau etholedig yng Nghymru hefyd yn berthnasol. Pan rydw i'n canfod tystiolaeth o fethiant gan aelodau etholedig i gydymffurfio â'r Cod fel rhan o'r broses cynllunio gallaf gyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru neu at Bwyllgor Safonau'r awdurdod dan sylw i gael ei ystyried ymhellach.

  Mae enghreifftiau o achosion difrifol yn cynnwys un aelod wedi ei anghymwyso rhag dal y swydd am 18 mis am ddefnyddio ei swyddogaeth fel aelod etholedig yn y broses cynllunio er mwyn manteisio mewn perthynas â thir roedd yn berchen arno. Enghraifft arall yw achos yr aelod cafodd waharddiad am 3 mis am fethu datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais yn ymwneud â fferm tyrbinau gwynt, a gadael y cyfarfod pan drafodwyd y mater.

  Hoffwn bwysleisio bod achosion o'r fath yn anghyffredin ac mae fy ngwaith achos yn awgrymu bod yr aelodau etholedig ar draws Cymru yn dilyn safonau moesegol uchel. Fodd bynnag, yn yr achosion achlysurol iawn hyn pan fod angen ymchwilio arnaf, mae fy rôl yn cynnig ffordd effeithiol o ddelio ag achosion o gamymddygiad mewn modd agored a thryloyw er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses cynllunio yng Nghymru.

Gwasanaethau cynllunio a lefel adnoddau

Rwyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith adnoddau ar awdurdodau cynllunio wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio. Mae'n anodd i mi wneud datganiad pendant p'un a oes modd cysylltu'r themâu sy'n codi yn fy ngwaith achos â phwysau o ran adnoddau ar awdurdodau cynllunio, gan nad yw'r materion hyn yn cael eu codi'n ffurfiol gan yr achwynwyr sy'n cysylltu â mi na'r cyrff rwy'n ymchwilio

2 Nid fy swyddogaeth i yw gwneud canfyddiadau pendant p'un a ydy corff cyhoeddus wedi torri hawliau dynol unigolyn. Serch hynny, pan fyddaf i'n canfod tystiolaeth o gamweinyddu sydd wedi achosi anghyfiawnder, efallai y byddaf yn ystyried a effeithiwyd ar hawliau dynol unigolyn ac yn nodi'r ystyriaeth a roddodd y corff cyhoeddus iddynt.

iddynt.

Fodd bynnag, er budd cyflawnder hoffwn dynnu sylw at rai ffactorau sy'n cyfrannu a gafodd eu nodi mewn cwynion i'm swyddfa:

- gellir cysylltu oedi cyn cymryd camau gorfodi â phroblemau staffio, gyda rolau swyddogion gorfodi penodol yn cael eu cynnwys yn fwy a fwy yng nghylch gorchwyl swyddogion cynllunio;
- yn arbennig mewn cymunedau gwledig gydag adran gynllunio fach, gellir cael awgrymiadau neu ganfyddiadau bod swyddogion cynllunio'n cael eu dylanwadu gan gysylltiadau teuluol neu gyfeillgarwch gydag ymgeiswyr.

Fy nod yw ystyried a fu camweinyddu ac anghyfiawnder mewn achosion unigol, yn hytrach na chynnal adolygiadau o'r swyddogaeth gynllunio, felly nid wyf wedi ymchwilio'n uniongyrchol i'r materion hyn. Fodd bynnag, maen nhw'n adlewyrchu'r pryderon a nodwyd gan y rhai sy'n cwyno i'm swyddfa ynghylch materion cynllunio.

Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2020

****

Atodiad: enghreifftiau o waith achos cynllunio mae fy swyddfa yn delio â nhw

Rhif yr Achos: 201800027 – cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2018

Cwynodd Mr Y nad oedd Cyngor Sir Penfro ("y Cyngor") wedi cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygwr a oedd wedi torri amodau cais cynllunio a ganiatawyd ar gyfer gwersyllfa ar gyfer carafanau statig a theithiol. Cwynodd hefyd nad oedd y Cyngor wedi cysylltu ag ef nac wedi delio â'i gŵyn o dan ei weithdrefn gwyno. Canfu'r Ombwdsmon fod methiannau ymddangosiadau ynghlwm wrth yr achos a chysylltodd â'r Cyngor. Cytunodd i wneud y canlynol fel datrysiad cynnar i'w gŵyn:

a) Ysgrifennu llythyr at Mr Y yn ymddiheuro am yr oedi cyn delio â'i gŵyn o dan ei weithdrefn gwyno; ac

b) Anfon ymateb ysgrifenedig yng ngham 2 o'i weithdrefn gwyno a fydd yn cynnwys y camau a gymerwyd ganddo eisoes.

Mae hyn i'w gwblhau o fewn 30 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr hwn. Mae'r Ombwdsmon yn fodlon y bydd hyn yn datrys y gŵyn.

Rhif yr achos 201801745 – cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2018

Cwynodd Mr X bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe ("y Cyngor") wedi methu â chymryd camau gorfodi yn erbyn bwyty nad oedd wedi gosod ramp yn unol â'i gais gynllunio ac ynglŷn â'r cyfnod o amser a gymerodd y Cyngor i ymateb i'w bryderon. Gwnaeth Mr X ymholiad gorfodi i'r Cyngor yn Chwefror 2018 ac roedd yn deall y byddai ymateb yn cael ei ddarparu o fewn 12 wythnos. Ar ôl hynny, cwynodd Mr X a derbyniodd ymateb cwyn Cam 1 ym mis Gorffennaf 2018. Esboniodd y Cyngor i Mr X y gallai ymchwiliadau gorfodi gymryd mwy nag 12 wythnos. Ni chynigiodd ymddiheuriad ynghylch yr amser a gymerwyd, na darparu gwybodaeth i Mr ychwaith ynglŷn â sut i helaethu ei gwŷn. Felly, cytunodd y Cyngor i gwblhau'r camau canlynol:

a) Ymddiheuro i Mr X am y cyfnod o amser a gymerwyd i ymchwilio'r ymholiad gorfodi

b) Esbonio'r rhesymau ynghylch yr oedi

c) Darparu gwybodaeth i Mr X ynglyˆn â sut i helaethu ei gwˆyn i Gam 2 o'i drefn cwyno os yw'n parhau'n anfodlon gyda'i ymateb.

Darparodd y Cyngor dystiolaeth ei fod wedi ysgrifennu at Mr X ar 23 Awst 2018 a'i fod wedi cydymffurfio â'r camau a restrir uchod.

Rhif yr achos: 201705212 – cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2018

Cwynodd Mr A, ar ôl iddo gael caniatâd cynllunio amodol am ddatblygiad tai lleol, bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi methu â rhyddhau'r amodau cynllunio cysylltiedig, gan arwain at ei eiddo yn dod yn ddarostyngedig i berygl difwyniant a dŵr llifogydd. Cwynodd Mr A hefyd y bu methiant i ymateb yn ddigonol i'w gŵyn.

Canfu'r ymchwiliad y bu cyfleoedd wedi'u colli i sicrhau bod yr amodau cynllunio wedi cael eu diwallu neu i ystyried cymryd camau gorfodi. Canfu'r ymchwiliad hefyd bod y Cyngor wedi methu ag ymateb yn llawn i gŵyn Mr A. Cadarnhawyd y gŵyn i raddau.

Argymhellwyd bod y Cyngor yn ymddiheuro i Mr A am y methiannau a adnabuwyd yn yr adroddiad a threfnu cyfarfod â'r Awdurdod Draenio Tir, yr Awdurdod Priffyrdd, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ffurfio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r gweithiau carthffosydd i'w bodloni ar y safle, ystyried effaith amgylcheddol y rhediad trwchus o ddŵr, a diweddaru Mr A o'r canlyniad. Argymhellwyd hefyd bod y Cyngor, ar ôl derbyn tystiolaeth berthnasol gan Mr A, yn cyfeirio pryderon Mr A ynghylch yr arllwysiad a oedd yn gollwng at yr Adran Iechyd Amgylcheddol i'w ystyrio a gofyn ei fod yn ymgymryd â samplu'r afon, cysylltu â'r rheolydd dŵr a chynghori Mr A o ganlyniad yr ymchwiliadau.

Rhif yr achos: 201706403 - cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2019

Cwynodd Mrs B i Gyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") am y modd yr ymdriniodd â chais i ddiwygio caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu tŷ ar y llain o dir wrth ymyl ei thŷ. Dywedodd Mrs B fod y cynlluniau diwygiedig wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r eiddo cyfagos arfaethedig, sydd wedi cael effaith sylweddol ar ei phreifatrwydd a'i harddwch.

Canfu'r Ombwdsmon fod yr ymgynghoriad ar y cais yn ddiffygiol am iddo fethu â disgrifio'r datblygiad yn ddigonol neu gynnwys cynlluniau safle a fyddai'n dangos bwriad yr ymgeisydd i symud lleol y tŷ ar y llain. Canfu'r Ombwdsmon bod y Swyddog Achos wedi methu ag ystyried yn ddigonol yr effaith y byddai adleoli'r tŷ yn cael ar harddwch eiddo Mr B. Canfu'r Ombwdsmon hefyd nad oedd y Cyngor wedi gweithredu'n unol â'i bolisi gorfodi mewn perthynas â'r achos hon a'i fod wedi methu ag ymdrin â chwyn Mrs B yn gywir.

Ers y digwyddiadau, mae'r Cyngor wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau i'w brosesau cynllunio a gorfodi. Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro am y methiannau a adnabuwyd yn yr adroddiad, i ymgysylltu â'r prisiwr ardal i asesu'r effaith a gafodd adleoli Tŷ A a'r harddwch eiddo Mrs B, gwneud taliad sy'n gywerth â'r dibrisiad a ddeilliodd o'r newid hwn ac i gyfarfod â Mrs B er mwyn sefydlu a oes unrhyw faterion gorfodaeth i'w bodloni.

Rhif yr achos: 201903049 – cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2019

Cwynodd Mr X fod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chymryd camau gorfodi yn erbyn eiddo cyfagos. Cwynodd Mr X hefyd fod Cyngor Sir y Fflint wedi rhoi gwybodaeth anghywir iddo mewn ymateb cwyn cam 2 iddo.

Casglodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu â rhoi amserlen benodol i Mr X ynghylch pryd y byddai'n dechrau cymryd camau gorfodi yn erbyn ei eiddo cyfagos. Casglodd yr Ombwdsmon hefyd fod y Cyngor wedi rhoi gwybodaeth anghywir i Mr X yn ei ymateb cam 2 a heb ei ddiweddaru'n gywir a chynhwysfawr ynghylch ei gŵyn.

Cysylltodd yr Ombwdsmon â'r Cyngor a gytunodd i:

a) Ymddiheuro'n ysgrifenedig wrth Mr X am roi gwybodaeth anghywir iddo yn ymateb cam 2 y Cyngor i'w gŵyn.

b) Rhoi diweddariad llawn, cywir a chynhwysfawr i Mr X ar ei gŵyn.

c) Cwblhau'r gwaith paratoi ar gyfer cymryd camau gorfodi a'i weithredu, os bydd angen, o fewn amserlen gytunedig.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon y byddai hyn yn datrys y materion a ystyriwyd yn y gŵyn hon.

Rhif yr achos: 201900014 - cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2020

Cwynodd Landlord nad oedd Cyngor Sir y Fflint, rhwng 2014 a 2019, wedi cymryd camau amserol a phriodol i ddelio â chyfleuster golchi ceir a oedd yn achosi Niwsansau Statudol oherwydd sŵn a ysgeintiad dŵr/cemegau a oedd yn effeithio ar denant y Landlord, Mr R a'i fod hefyd wedi mynd yn groes i reolaethau cynllunio. Cwynodd y Landlord hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymchwilio nac ymateb yn briodol i'w gŵyn ac yn unol â'i Bolisi Cwynion Corfforaethol.

Canfu'r Ombwdsmon er iddo ddod yn ymwybodol mor bell yn ôl â 2014 fod y cyfleuster golchi ceir yn achosi Niwsans Statudol, nid oedd y Cyngor wedi agor ffeil achos briodol tan 18 mis yn ddiweddarach ac ni chyhoeddodd Hysbysiad Atal am 13 mis arall. Er bod y cyfleuster golchi ceir wedi parhau i weithredu ac achosi'r Niwsans Statudol, a oedd yn mynd yn groes i'r Hysbysiad Atal, ni chymerodd y Cyngor gamau pellach. O ganlyniad, bu'n rhaid i Mr R ddioddef lefelau sŵn ac ysgeintiad dŵr cyson, a oedd yn amharu'n sylweddol arno ers nifer o flynyddoedd. Roedd hyn yn anghyfiawnder sylweddol i'r tenant a hefyd i'r Landlord, o ganlyniad i rwymedigaethau'r Landlord i'w denant a'i hawl, o dan Erthygl 18 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, i fwynhau ei gartref mewn tawelwch a heddwch.

Canfu'r Ombwdsmon fod y Cyngor yn ymwybodol ers o leiaf 2012 nad oedd gan y cyfleuster golchi ceir ganiatâd cynllunio priodol, ond nid oedd ganddo ddim cofnodion

cynllunio bron cyn Awst 2018. Roedd methiannau hefyd o ran cyfathrebu a chydweithredu rhwng adrannau. Roedd diffyg cofnodion ynghyd â diffyg gweithredu ar ran y Cyngor yn y 5 mlynedd cyn Awst 2018 yn awgrymu nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn fanwl a oedd am gymryd camau gorfodi yn erbyn y cyfleuster golchi ceir ac roedd hynny'n cyfrif fel camweinyddu. O ganlyniad, ni allai'r Cyngor egluro'r rhesymau a oedd wrth wraidd ei weithredoedd (a diffyg gweithredu) a hefyd, roedd yn amhosibl delio â'r gŵyn yn llawn ac i archwilio a gwerthuso hanes yr achos yn yr Adran Gynllunio.

Canfu'r Ombwdsmon hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymateb yn briodol i gwynion y Landlord a'u huwchgyfeirio pan ofynnwyd iddo am gymorth i wneud cwyn ffurfiol. Nid oedd gan neb ychwaith berchnogaeth sefydledig ac eglur ar lefelau uwch yn y Cyngor, ac roedd hynny wedi'i waethygu gan yr amser hir y parhaodd y methiannau a'r diffyg sylw i'r anawsterau roedd Mr R yn eu hwynebu. O ganlyniad, ni fu ymchwiliad priodol i'r gŵyn ac ni chafodd y Landlord ymateb ystyrlon i'w bryderon.

Cytunodd y Cyngor y byddai, o fewn mis i adroddiad y Cyngor yn:

a) Atgoffa staff perthnasol ar bob lefel yn y Cyngor o bwysigrwydd delio'n briodol â gohebiaeth, gan gynnwys cyfeirio unigolion sydd am wneud cwyn ffurfiol at y Tîm Cwynion Corfforaethol.

b) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i'r Landlord ynghyd ag iawndal ariannol o £1000 i gydnabod y methiannau wrth ddelio â chwynion, ac amser a thrafferth y Landlord i olrhain y gŵyn am o leiaf 5 mlynedd.

c) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i Mr R, ynghyd ag iawndal ariannol o £2,500 am y methiant i ddelio â'r Niwsansau Statudol ac i gydnabod amlygiad parhaus a maith Mr R i lefelau annerbyniol o sŵn a dŵr yn ysgeintio dros gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

Ym mis Ionawr 2019 adolygodd a diweddarodd y Cyngor ei bolisi ar Orfodaeth Cynllunio. Cytunodd y Cyngor hefyd y byddai, o fewn 3 mis i adroddiad yr Ombwdsmon, yn:

a) Rhannu'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau â staff perthnasol yn yr Adrannau Cynllunio, yr Amgylchedd a Chyfreithiol yn ogystal ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, y Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylcheddol

b) Canfod pa bwerau sydd ar gael o hyd iddo i ddatrys y materion a sicrhau ei fod yn gweithredu'r pwerau hynny'n llawn fel sy'n briodol i gyflawni datrysiad terfynol

c) Adolygu ei Bolisi Gorfodaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â chanllawiau, deddfwriaeth ac arferion gorau Llywodraeth Cymru, gyda phwyslais penodol ar Niwsansau Statudol.

d) Datblygu trefniadau gweithdrefnol ffurfiol ar gyfer cydweithrediad rhwng adrannau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cydweithredu rhwng adrannau, gyda phwyslais ar yr Adrannau Cynllunio, Cyfreithiol ac Iechyd yr Amgylchedd

e) Adolygu'r Polisi Cwynion i sicrhau ei fod yn amlwg pwy ddylai fod â phrif gyfrifoldeb am ymchwilio ac ymateb i gwynion, yn enwedig pan fydd materion yn ymwneud â gwahanol adrannau o'r Cyngor

f) Myfyrio ar sut y gellir ymgorffori ystyriaeth i hawliau dynol yn ei arferion gweithio wrth benderfynu a yw am gymryd camau gorfodi, gyda chyfeiriad penodol at reolaeth gynllunio ac ymchwiliadau i Niwsansau Statudol

g) Adolygu ei sianelau cyfathrebu mewnol ac uwchgyfeirio i sicrhau bod staff yn gallu mynegi pryderon yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a all wedyn gael eu rheoli mewn ffordd adeiladol, i annog perchnogaeth ac atebolrwydd gan osgoi "diwylliant beio".